# Y Prosiect Cofnodi Capeli

# The Chapels Recording Project

100 CBHC RCAHMW

Er mai'r capel yw un o'r mathau mwyaf arbennig o adeilad yng Nghymru, mae bygythiad mawr iddo. Wrth i gynulleidfaoedd brinhau, mae mwy a mwy o gapeli'n cau. Caiff rhai ohonynt eu defnyddio at ddibenion eraill, ond gadewir i lawer ohonynt ddadfeilio neu gael eu dymchwel. Mae'r Comisiwn Brenhinol wedi creu cofrestr o fwy na 6000 o gapeli ac wrthi, gyda chymorth y cyhoedd, yn gwneud arolwg o'r hyn sy'n digwydd i'r adeiladu hynny.

The Welsh chapel is one of the most distinctive building types in Wales, and is also one of the most under threat. As congregations dwindle, an increasing number of chapels are closing. Some are reused for other purposes, but many are left to become derelict or are demolished. The Royal Commission has created a register of over 6,000 chapels, and is now carrying out a census of what is happening to these buildings with the help of the public.

De: Capel Jerusalem, Bethesda. Mae mwy a mwy o gynulleidfaoedd yn dod ynghyd i rannu costau cynnal capeli mawr, Yn ddiweddar, mae Jerusalem (900 o seddau), un o gapeli mawr y pentref ac un a godwyd gan y cynulleidfaoedd ffyniannus a weithiai yn y diwydiant llechi, wedi uno â chynulleidfa Capel Bethesda, capel yr Annibynwyr (950 o seddau), sydd wedi'i gau. Dirywio yw hanes capel Bethesda bellach.

Right: Jerusalem Chapel, Bethesda. Increasingly congregations are coming together in order to share the costs of maintaining large chapels. One of a number of large chapels in the town, funded by the prosperous congregations working in the slate industry, Jerusalem (seating 900) has recently amalgamated with the Independent congregation after the closure of Bethesda Independent Chapel (seating 950). Bethesda has now fallen into dereliction.




DS2007_429_001 NPRN 7199



DS2011_322_002 NPRN 7128

Uchod, pellaf ar y dde: Capel Peniel, Tremadog. Gan fod un o'r capeli pwysicaf yng Nghymru o ran ei bensaernïaeth wedi mynd i ddwylo Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru yn ddiweddar, y gobaith yw y bydd hynny'n fodd i'w ddiogelu am flynyddoedd maith.

Top Far Right: Peniel Chapel, Tremadoc. One of the most architecturally important chapels in Wales has recently passed into the hands of the Welsh Religious Buildings Trust, hopefully securing its preservation for many years to come.



CD2003-255-282 NPRN 6888

Uchod: Hebron, capel y Methodistiaid Calfinaidd, Gwauncwmbrwynog. Fel yn hanes cynifer o gapeli'r ucheldiroedd, rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r clwstwr hwn o gapel, ysgol Sul a thŷ capel, ac mae'n anghyfannedd bellach.

Above: Hebron Calvinist Methodist chapel, Gwaen Cwm Brwynog. This complex of chapel, Sunday school and chapel house, like many chapels in the uplands, has been abandoned and become derelict.

De: Capel Newydd, Capel yr Annibynwyr Cymraeg, Nanhoron, Sir Gaernarfon. Mae'n debyg mai'r capel hwn a'i waliau hirion yw'r un hynaf sydd wedi goroesi yn y gogledd. Ei restru'n adeilad Gradd I sy'n ei rwystro rhag cael ei newid.

Right: Capel Newydd Welsh Independent Chapel, Nanhoron. This Caernarfonshire long-wall chapel of 1770 is probably the earliest surviving chapel in North Wales. It is protected from alteration by its Grade I listing.



DS2007_227_001 NPRN 6974


**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru** *Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru*

**Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales** *National Monuments Record of Wales*

Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

*Ffôn/ Telephone:* 01970 621200

www.cbhc.gov.uk / www.rcahmw.gov.uk



Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government